CYFRES C12

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 2: 1-7

ADNOD ALLWEDDOL
1 Ioan 4: 14

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 1 Duw yn anfon Ei Fab, Iesu

Ble cawsoch chi eich geni? Gartref neu mewn ysbyty, efallai. Pan gaiff y rhan fwyaf ohonom ni ein geni, bydd meddygon a nyrsys wrth law i wneud yn siŵr fod popeth yn mynd yn iawn. Nid felly roedd hi pan anwyd Iesu!

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r eitemau canlynol i ganfod pwy oedd llywodraethwyr Israel pan anwyd Iesu.

— — — — — — — — — — —

4

Roedd y llywodraethwyr hyn eisiau gwybod faint o bobl oedd yn byw yn eu hymerodraeth. Felly, dyma nhw'n gorchymyn i bawb ddychwelyd i'w tref enedigol. Roedden nhw i gael eu cyfrif yno.
Dyma'r rheswm pam y bu'n rhaid i Joseff a Mair, oedd yn mynd i briodi, deithio o Nasareth i Fethlehem, y dref lle ganwyd Joseff.

C Teithiodd Mair a Joseff o

— — — — — — —

i

— — —— — — — — .



4

Ganwyd Iesu pan oedd Mair a Joseff yn ymweld â Bethlehem. Daeth Iesu - Mab Duw - i'r byd ymhell oddi cartref, heb ystafell na gwely go iawn, nac ychwaith unrhyw feddygon na nyrsys wrth law.

C **Dewiswch y geiriau cywir er mwyn cwblhau'r frawddeg sy'n dilyn.**

preseb gwesty dillad

Rhwymodd Mair Iesu mewn __ __ ___ __ __ baban

a'i osod mewn __ __ __ __ __ __,

am nad oedd lle iddynt yn y __ __ __ __ __ __.

6

Ganwyd Mab Duw i sefyllfa anodd, a chafodd Ei fagu mewn teulu tlawd. Dyma ffordd Duw o ddarparu Gwaredwr i bawb.

C **Lliwiwch y geiriau hyn o'r Adnod Allweddol.**

Mae'r "Tad wedi anfon ei Fab yn

Waredwr y byd."

I Ioan 4: 14

4

Meddyliwch am y peth! Anfonodd Duw, y Tad, Ei Fab, Iesu, i'r byd yn faban bach diymadferth. Tyfodd yn ddyn ac yna, flynyddoedd yn ddiweddarach, bu farw fel Gwaredwr y byd. Ond dechreuodd y cyfan mewn ffordd ddi-sôn-amdani a di-nod.

Pwy anfonodd Ei Fab? (Ysgrifennwch dri gair).

__ __ __ __ __ __ __

2

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 8-15

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 11

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 2 Duw yn anfon Iesu, y Gwaredwr

"Ai merch neu fachgen yw'r babi?"
"Faint mae'r babi yn ei bwyso?"
"A yw'r fam a'r babi yn dod yn eu blaen?"

Dyma'r math o gwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml pan fydd babi wedi ei eni. Pan anwyd Iesu, cyhoeddodd angel y newyddion da am Ei eni wrth griw o fugeiliaid yn gyntaf.

C Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.

Pwy gyhoeddodd y newyddion am eni Iesu?

Rhufeiniaid **Angel** **Y Bugeiliaid**

Pwy oedd y cyntaf i glywed am eni Iesu?

Rhufeiniaid **Angel** **Y Bugeiliaid**

Ond doedd yr angel ddim yn poeni faint oedd pwysau'r babi! Roedd yn fwy cyffrous ynglŷn â Phwy oedd y baban a anwyd!

4

C Dywedodd yr angel ei fod yn dod â:

XNXEXWXYXDDXIXOXNXXDXAX

Lliwiwch bob llythyren heblaw am y llythrennau 'X'

2

Defnyddiodd yr angel dri enw arbennig am Iesu.

C **Dilynwch y llinell sy'n arwain o bob enw i ganfod beth yw ystyr yr enw hwnnw.**

Yna, ysgrifennwch ystyr yr enw yn y blwch oddi tano.



Gwaredwr	Crist	Arglwydd

9

Yna, ymddangosodd llu o angylion yn yr awyr yn moli Duw am eni'r Arglwydd Iesu.

C **Lliwiwch y geiriau a gyhoeddodd yr angylion.**

"Gogoniant yn y goruchaf i Dduw"

Luc 2: 14

3

Clywodd y bugeiliaid fod y Baban wedi Ei eni ym Methlehem a bod modd iddyn nhw gael hyd Iddo wedi Ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb.

2

C **Ym mha dref y cafodd Iesu Ei eni?**

__ __ ____ __ __ __ __ __ .



Aeth yr angylion yn ôl i'r Nefoedd a phenderfynodd y bugeiliaid fynd i weld y Baban drostynt eu hunain.

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 16-20

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 20

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 3 Y bugeiliaid yn dod o hyd i Iesu

Mae disgwyl am ein pen-blwydd, neu wyliau, neu'r Nadolig yn gallu bod yn anodd iawn weithiau!
Pan glywodd y bugeiliaid y newyddion da am Iesu, roedden nhw'n awyddus iawn i fynd i weld y Baban drostynt eu hunain.
Felly, dyma nhw'n brysio i Fethlehem ac fe gawson nhw hyd i'r Baban – yn union fel y dywedodd yr angel wrthyn nhw!

C Ysgrifennwch GWIR neu ANWIR wrth ymyl y brawddegau hyn:-

Roedd y bugeiliaid yn awyddus iawn i fynd i weld y Baban drostynt eu hunain. .....

Arhosodd y bugeiliaid tan y diwrnod wedyn cyn mynd i weld y Baban. .....

Daeth y bugeiliaid o hyd i'r Baban yn union fel y dywedodd yr angylion wrthyn nhw. .....

6

Ar ôl gweld Iesu, doedden nhw ddim yn gallu cadw'r newyddion da hyn iddyn nhw eu hunain! Cyn hir, dechreuon nhw adrodd yr hanes am y cyfan a welsant ac a glywsant wrth bawb o'u cwmpas.
Roedd pawb a glywodd eu newyddion yn ...

Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob gwrthrych.



_____ _____ _____ _____ _____ _____

4

Rhaid bod Mair a Joseff wedi eu synnu pan glywson nhw'r hanes gan y bugeiliaid. Bu Mair yn meddwl yn hir am bopeth a ddigwyddodd.

C **Ysgrifennwch yr atebion i'r canlynol ac yna rhowch gylch o'u cwmpas yn y CHWILAIR.**

Mam Iesu
_ _ _ _ .

Pwy ddywedodd y newyddion da wrth y bugeiliaid?
_ _ _ _ _ _ _ .

Roedd Mair yn mynd i briodi
_ _ _ _ _ .

Cyhoeddodd yr angylion y
_ _ _ _ _ _ _ _ _ i'r bugeiliaid.

Pwy ruthrodd i weld y Baban?
_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ .

S	Ch	S	H	C	Dd	M	O	W	Ll
T	E	L	Ff	F	G	A	J	Ph	O
B	U	G	E	I	L	I	A	I	D
Rh	Dd	G	S	F	D	R	B	E	Ff
M	Ll	N	O	I	L	Y	Ng	A	P
C	M	A	J	Y	W	C	F	H	H
N	E	W	Y	Dd	I	O	N	D	A

Dyna beth oedd cyfnod cyffrous yn hanes y bugeiliaid! Nawr, gan eu bod wedi gweld Iesu drostynt eu hunain, fyddai pethau fyth yr un peth!
Unwaith y byddwn ni wedi 'cyfarfod' â'r Arglwydd Iesu ac yn Ei adnabod fel ein Gwaredwr, cawn ninnau hefyd ein newid.
Fydd ein bywydau ni fyth yr un peth ar ôl i hynny ddigwydd!

Enw _____

DARLLENWCH
Marc 1: 1-9

ADNOD ALLWEDDOL
Marc 1: 7

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 4 Ioan yn bedyddio Iesu

Wyddom ni ddim rhyw lawer am flynyddoedd cynnar bywyd Iesu. Bu'n byw yn Nasareth gyda'i fam, ei chwiorydd a'i frodyr yn ystod y cyfnod hwn. Does dim mwy o sôn am Joseff chwaith wedi i Iesu gyrraedd 12 oed. Mae'n bosibl i Iesu ddilyn crefft Joseff fel saer.
Pan oedd Iesu tua 30 oed, dechreuodd Ioan Fedyddiwr bregethu. Roedd Ioan wedi bod yn byw yn yr anialwch lle bu'n bwyta locustiaid a mêl gwyllt. Paratoi pobl ar gyfer dyfodiad Crist, yr Arglwydd, oedd ei waith arbennig ef. Gwyddai Ioan fod yr Un oedd i ddod yn llawer gwell ac yn fwy nerthol nag ef. "Nid wyf fi'n deilwng i blygu a datod carai ei sandalau Ef," meddai.

C Cyhoeddai Ioan:

"Paratowch ffordd yr Arglwydd."

Lliwiwch y geiriau o Marc 1: 4

4

C Llanwch y geiriau sydd ar goll yn y brawddegau canlynol i ganfod beth ddywedodd Ioan am yr Arglwydd Iesu.

deilwng cryfach sandalau

"Y mae un _ _ _ _ _ _ na mi yn dod ar fy ôl i."

"Nid wyf fi'n _ _ _ _ _ _

i blygu a datod carrai ei _ _ _ _ _ _ _ _ ef."

6



Bu Iesu'n byw bywyd tawel gyda'i deulu am tua 30 mlynedd. Bellach, roedd yr amser wedi dod Iddo ddechrau galw pobl at Dduw ac i bregethu'r Newyddion Da y soniodd yr angylion amdano ar noson Ei eni!
Bedyddiwyd Iesu gan Ioan yn Afon yr Iorddonen. Ni fedrai Ioan ddeall pam fod angen i Rywun mor arbennig gael Ei fedyddio. Er bod Iesu yn berffaith ac yn Un na fyddai fyth angen maddeuant, doedd E ddim am ymddangos yn falch neu uwchlaw pobl gyffredin. Felly, o gael Ei fedyddio, roedd Iesu yn dangos Ei fod yn awyddus i adnabod pobl bechadurus fel chi a fi!

C **Pwy fedyddiodd Iesu?** _ _ _ _

Ble cafodd Iesu Ei fedyddio? Yr Afon _ _ _ _ _ _ _ _ _

Ni fyddai fyth angen hwn ar Iesu. _ _ _ _ _ _ _ _

6

Bellach, roedd Iesu ar fin dechrau ar gyfnod o dair blynedd o bregethu ac iachau. Yna, byddai'n marw ar y Groes ac yn dod yn ôl yn fyw dri diwrnod yn ddiweddarach!
Do, darostyngodd Iesu - Mab Duw - Ei Hun, er mwyn i ni dderbyn maddeuant am ein pechodau a dod yn ffrindiau gyda Duw.
Heddiw, bron 2000 o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae miliynau o bobl yn adnabod ac yn caru'r Arglwydd Iesu. Ydych chi'n Ei adnabod ac yn Ei garu fel eich Gwaredwr a'ch Arglwydd?

4

"Iesu, Fab Duw."

Lliwiwch y geiriau.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120